



**TYSTYSGRIF  
CYMHWYSEDD  
IAITH I ATHRAWON**

**LLAWLYFR  
MYFYRWYR**

[www.colegcymraeg.ac.uk/tca](http://www.colegcymraeg.ac.uk/tca)



## BETH YW'R DYSTYSGRIF?

Mae'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon yn cydnabod lefel sgiliau iaith Gymraeg llafar ac ysgrifenedig darpar athrawon ar gyfer y dosbarth. Mae hefyd yn cydnabod eu gallu i gymhwyso a datblygu sgiliau ieithyddol y disgyblion.

Mae ymgeisio am y Dystysgrif hon yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ar gyrsiau TAR ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig a llafar ac adnabod gwerth y sgiliau hyn ar gyfer gweithle Cymraeg neu ddwyieithog.

Mae'r Dystysgrif wedi ei chyflwyno ar sail cais gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu dystysgrif cymhwysedd iaith gyda'r nod o'i dyfarnu i athrawon arfaethedig a fydd yn dymuno dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.



## SUT MAE COFRESTRU?

Yn ystod 2017/18, mae modd i fyfyrwyr TAR Cynradd a myfyrwyr TAR Uwchradd sy'n dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ymgeisio am y Dystysgrif. Cydlynwyr y Dystysgrif yn y Canolfannau Addysg Athrawon fydd yn trefnu'r cofrestru ar ran y myfyrwyr. Bydd y manylion hyn yn cael eu trosglwyddo i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) sy'n cydlynu'r cynllun yn genedlaethol.

## AMODAU'R DYSTYSGRIF?

Bydd disgwyl i'r myfyrwyr a fydd yn ymgeisio am y Dystysgrif:

- ✔ gofrestru gyda chydlynnydd y Dystysgrif yn y Ganolfan Addysg Athrawon berthnasol
- ✔ bod yn aelodau o'r Coleg (bydd y Canolfannau yn rhannu gwybodaeth personol am fyfyrwyr gyda'r Coleg er mwyn eu cofrestru fel aelodau. Bydd pob myfyrwr yn derbyn e-bost gan y Coleg yn cadarnhau eu haelodaeth)
- ✔ mynychu sesiynau gloywi iaith (sydd eisoes yn rhan o'r cyrsiau TAR)
- ✔ cwblhau profiad addysgu proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg
- ✔ cwblhau asesiad llafar/addysgu ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ail brofiad ysgol
- ✔ cwblhau arholiad ysgrifenedig.



## SUT MAE ENNILL Y DYSTYSGRIF?

Bydd y darpar athrawon yn cael eu hasesu'n ymarferol yn ystod eu hail brofiad addysgu proffesiynol a byddant hefyd yn sefyll arholiad ysgrifenedig.

**Mae'n rhaid llwyddo yn y ddwy elfen er mwyn sicrhau'r Dystysgrif.**



## ELFENNAU'R DYSTYSGRIF

### RHAN 1: Arholiad Ysgrifenedig

Bydd yr arholiad yn asesu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig y myfyrwr. Bydd yr arholiad ysgrifenedig yn cyfrif 40% tuag at y marc terfynol.

### RHAN 2: Asesiad Ymarferol

Asesiad o allu'r myfyrwr i addysgu'n ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg (sy'n cyfrif 60% tuag at y marc terfynol). Bydd graddau myfyrwr yn cael eu pennu gan fentoriaid ysgol ar sail arsylwi cyfres o wersi yn ystod eu profiad addysgu proffesiynol. Bydd dwy ran i'r asesiad o addysgu'n ymarferol:




**RHAN 2 (i): Safon llythrennedd personol (marc allan o 100 a gwerth 30% o'r radd derfynol)**

**RHAN 2 (ii): Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr (marc allan o 100 a gwerth 30% o'r radd derfynol)**

## GRADDAU'R DYSTYSGRIF

Dyfernir y Dystysgrif ar raddfeydd gwahanol i adlewyrchu cyrhaeddiad y myfyrwr:

- ▶ Marc terfynol yn 70 neu'n uwch
- ▶ Marc terfynol rhwng 60 a 69
- ▶ Marc terfynol rhwng 50 a 59
- ▶ Marc terfynol yn is na 50.



# YR ASESIAU

## 1. YR ARHOLIAD YSGRIFENEDIG

Cynhelir yr arholiad ym mis Mai 2018 (dyddiad i'w gadarnhau).

Bydd tair tasg i'w cwblhau yn yr arholiad ysgrifenedig. Hyd yr arholiad fydd awr a hanner. Ceir enghreifftiau o hen bapurau arholiad ar wefan y Coleg.

### TASG 1: Cywiro (20% o farciau'r papur)

Bydd darn tua 150 o eiriau ar y papur, yn cynnwys tua 22 o wallau gramadegol. Bydd disgwyl i fyfyrwyr gywiro'r gwallau a nodi'r cywiriadau mewn print trwm.

- ▶ Nid yw tynnu sylw at y gwallau'n ddigon.
- ▶ Ni roddir unrhyw farciau os na fydd y gwallau wedi eu cywiro.
- ▶ Nid oes angen esbonio'r rhesymau dros gywiro.
- ▶ Ni ddylid aralleirio na newid arddull y darn.
- ▶ Bydd Cysill yn canfod rhai o'r gwallau yn unig.
- ▶ Gofalus – bydd Cysill yn camgywiro rhai pethau!

#### Meini Prawf Tasg 1

Bydd Cysill yn adnabod 4 gwall, a rhoddir ½ marc yr un am gywiro'r gwallau hyn. Rhoddir 1 marc yr un am gywiro'r 18 gwall ychwanegol (cyfanswm posibl, 20 marc).

### TASG 2: Trawsieithu (40% o farciau'r papur)

Bydd angen llunio trawsieithiad o erthygl Saesneg. Mae trawsieithu'n wahanol iawn i gyfieithu oherwydd bod angen crynhoi'r wybodaeth yn y darn yn ogystal â throsi'r wybodaeth i iaith arall.

- ▶ Dim ond prif negeseuon y darn y dylid eu cynnwys.
- ▶ Dylai'r trawsieithiad fod tua thraean/chwarter hyd y gwreiddiol.
- ▶ Rhaid cynnwys prif neges y darn a'r isbwyntiau pwysicaf.
- ▶ Bydd cywirdeb a hyd y trawsieithiad yn cael eu hystyried wrth farcio.

#### Meini Prawf Tasg 2

**Bydd yr arholwyr yn ystyried yr elfennau canlynol wrth farcio'r dasg:**

- cywirdeb a defnyddio arfau iaith gyfrifiadurol e.e. Cysill
- cystrawen a geirfa
- cywair/arddull
- egwyddorion trawsieithu a chadw at ofynion y dasg.

### TASG 3: Ysgrifennu Rhydd (40% o farciau'r papur)

Bydd gofyn i fyfyrwyr ysgrifennu darn ffeithiol byr, rhwng 280 a 330 o eiriau. Mae'n bosibl y bydd y cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr ystyried eu profiadau yn y byd addysg.

- ▶ Nid ysgrifennu stori neu ddarn creadigol yw'r dasg hon.
- ▶ Dylid sicrhau bod pob agwedd ar y cwestiwn yn cael ei ateb.
- ▶ Bydd marciau yn cael eu colli os na fydd yr ateb yn ymdrin â holl elfennau'r cwestiwn.
- ▶ Bydd cywirdeb a hyd y darn yn cael eu hystyried wrth farcio.

#### Meini Prawf Tasg 3

**Bydd yr arholwyr yn ystyried yr elfennau canlynol wrth farcio'r dasg:**

- cywirdeb a defnyddio arfau iaith gyfrifiadurol e.e. Cysill
- cystrawen a geirfa
- cywair/arddull
- cadw at ofynion y dasg.



# YR ASESIADAU

## 2. YR ASESIAD YMARFEROL

Fel rhan o'r cwrs TAR, bydd disgwyl i fyfyrwyr gynllunio a chynnal cyfres o wersi ymarferol. Bydd y Mentor Ysgol yn arsylwi'r gwersi hyn yn rheolaidd. Ar ddiwedd yr ail brofiad addysgu proffesiynol, bydd yr arsylwadau hyn yn sail i ddyfarnu dau farc terfynol ar gyfer dwy elfen yr asesiad o allu'r myfyrwyr i addysgu'n ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Yr ail brofiad dysgu yn unig a asesir gan fentor ar gyfer y Dystysgrif.**



**Rhan 1: Safon Llythrennedd Personol y Myfyriwr** Marc allan o 100 (30% o'r radd derfynol)

Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu hystyried er mwyn dyfarnu marc yr elfen hon:

- ▶ Adnoddau iaith y myfyriwr
- ▶ Geirfa, termau a sillafu
- ▶ Treigladau
- ▶ Gramadeg cyffredinol
- ▶ Dull Cyflwyno.

**Rhan 2: Gallu'r myfyriwr i gymhwyso a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr**

Marc allan o 100 (30% o'r radd derfynol)

Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu hystyried er mwyn dyfarnu marc ar gyfer yr elfen hon:

- ▶ Dealltwriaeth y myfyriwr wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafared, darllen ac ysgrifennu ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd
- ▶ Dealltwriaeth y myfyriwr wrth ddewis, cyfansoddi a dadansoddi nodweddion cynnwys ac iaith ffurfiau ysgrifenedig mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd
- ▶ Ystyriaeth i waith cynllunio ac addysgu er mwyn datblygu'r sgiliau a chysyniadau llythrennedd y dysgwyr, gan wneud defnydd o amrediad o arddulliau addysgu a dysgu
- ▶ Y gallu i gyfleu disgwyliadau, a phennu tasgau i ddatblygu sgiliau llythrennedd. Gallu i ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr/disgyblion
- ▶ Defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn llywio'r broses o ddatblygu sgiliau llythrennedd.

## Y SESIYNAU DYSGU

### PRYD A BLE BYDD Y SESIYNAU CEFNOGI/GLOYWI IAITH?

Bydd sesiynau cefnogi iaith yn cael eu cynnal yn y gwahanol Ganolfannau Addysg Athrawon yn ystod y tymor dysgu. Bydd cydlynedd y Dystygrif yn eich canolfan yn cysylltu â chi gyda gwybodaeth am y sesiynau fydd ar gael.



### ADNODDAU NEWYDD AR-LEIN

Mae pecyn o adnoddau newydd sydd wedi eu cymhwyso i'r byd addysg wedi eu datblygu i gefnogi myfyrwyr sy'n ymgeisio am y Dystygrif. Mae'r fersiwn ap yn cynnwys blas o'r adnoddau hyn ar gael i'w lawrlwytho i dabledi a ffonau symudol. Am fersiwn llawn o'r adnoddau, mae modd mewngofnodi ar-lein.

Noder, mae modd i unrhyw un sydd â diddordeb i ddatblygu eu sgiliau iaith gofrestru i ddefnyddio'r adnoddau gwerthfawr hyn (nid yn unig ymgeiswyr y Dystygrif).

[www.colegcymraeg.ac.uk/](http://www.colegcymraeg.ac.uk/)  
sgiliauiaithathrawon

### CYNNWYS BRAS Y SESIYNAU DYSGU:

**CYWAIR IAITH** - gwahanol gyweiriau iaith a'r modd y dylid addasu iaith yn ôl diben a chynulleidfa.

**HOLI CWESTIYNAU** - technegau holi pwrpasol, a mathau gwahanol o gwestiynau.

**Y FFURF ORCHMYNNOL** - defnyddio gorchmynion syml er mwyn sicrhau rheolaeth a threfn yn y dosbarth.

**DEFNYDDIO GEIRIADUR AC ARFAU IAITH CYFRIFIADUROL** - defnyddio Cysill/Cysgair yn llwyddiannus (ac offer cywiro Microsoft Word os yw ar gael).

**BERFAU** - amseroedd y ferf a rhediad y berfau rheolaidd a'r berfau afreolaidd mwyaf.

**ARDDODIAID** - rheolau'r arddodiaid, gan gynnwys treiglo ar ôl arddodiaid, rhedeg arddodiaid, dewis arddodiaid cywir ac osgoi dilyn patrymau'r Saesneg.

**GWALLAU CYFFREDIN AC ARWEINIAD I DDYSGWYR AR GYWIRDEB** - cywiro brawddegau a chynnig rhesymau dros gywiriadau. Ymateb yn adeiladol i iaith lafar ac ysgrifenedig disgyblion ysgol.

**CYFIEITHU A THRAWSEITHU** yng nghydestun addysgu a dysgu mewn sefyllfaoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Deall y gwahaniaeth rhwng trawsieithu a chyfieithu.

**GWAHANIAETHU** - sicrhau darpariaeth sy'n ymestyn y mwyaf galluog ac yn darparu'n briodol ar gyfer myfyrwyr llai galluog, ynghyd â defnyddio ieithwedd sy'n briodol i ddysgwyr o wahanol gefndiroedd ieithyddol.

## YMWELIAD CYMEDROLI

Bydd y Coleg yn trefnu bod y Cymedrolwyr a'r Prif Arholwr yn arsylwi gwersi sampl gan fyfyrwyr o bob Canolfan Addysg Athrawon. Bydd y sampl arsylwi yn cael ei bennu gan y Coleg mewn ymgynghoriad â'r Canolfannau er mwyn sicrhau trawstoriad o'r safonau. Pwysleisir nad yw presenoldeb y Cymedrolwyr a/neu'r Prif Arholwr yn adlewyrchiad o safon y myfyriwr, a gwneir pob ymdrech i sicrhau nad yw eu presenoldeb yn amharu ar y myfyrwyr. Bydd y Coleg Cymraeg yn rhoi gwybod i'r ysgol a'r myfyriwr mewn da bryd os bydd myfyriwr yn rhan o'r broses gymedroli. Disgwylir i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth benodol ar gyfer ymweliad y Cymedrolydd:

- Copi o gynllun gwers ac adnoddau'r wers a arsylwir
- Ffeil yn cynnwys holl gynlluniau gwersi'r profiad addysgu proffesiynol ac enghreifftiau o adnoddau a baratowyd
- Tystiolaeth o asesu a marcio gwaith disgyblion
- Enghreifftiau o asesiadau ffurfiannol ac adolygiadau myfyriol y myfyrwyr.

## MARCIO PAPURAU

Bydd y papurau arholiad yn cael eu marcio'n ddiennw gan arholwyr cymwys wedi eu penodi gan y Coleg. Bydd y Prif Arholwr yn cymedroli'r papurau. Wedi hynny, bydd y Bwrdd Arholi'n cadarnhau'r canlyniadau cyn eu cyhoeddi.

## CYHOEDDI'R CANLYNIADAU

Bydd myfyrwyr yn derbyn eu canlyniadau drwy e-bost gan y Coleg yn ystod mis Mehefin/Gorffennaf 2018. Ar ôl derbyn y canlyniad, bydd hawl gan fyfyrwyr i gysylltu â'r Coleg i ofyn am y marciau a gawsant yn yr arholiad ysgrifenedig a'r asesiad ymarferol. Bydd pawb a fydd yn llwyddo yn derbyn tystysgrif erbyn mis Medi 2018.







Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon



[www.colegcymraeg.ac.uk/tca](http://www.colegcymraeg.ac.uk/tca)



[www.facebook.com/colegcymraeg](http://www.facebook.com/colegcymraeg)



[www.twitter.com/colegcymraeg](http://www.twitter.com/colegcymraeg)